# Ennyn diddordeb myfyrwyr a staff mewn cynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

Er bod Prifysgol Bangor yn uniongyrchol gyfrifol am lawer o effeithiau ei gweithrediadau, mae'n dibynnu ar ei chymuned o fyfyrwyr a staff i gyfrannu at liniaru ei heffeithiau cyffredinol trwy eu gweithredoedd fel unigolion ac fel grŵp. Mae'r brifysgol yn annog ei myfyrwyr a'i staff i wneud newidiadau tymor hir a phellgyrhaeddol i'w hymddygiad er mwyn ei galluogi i wneud gwelliannau cynaliadwy parhaus i weithrediadau ac arferion y sefydliad, a hefyd i alluogi'r myfyrwyr a'r staff hynny i ddefnyddio eu hymddygiad newydd ym mhob rhan o'u bywydau, yn y brifysgol a thu hwnt.

## Ein myfyrwyr

---

Mae ein myfyrwyr yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud ym Mangor. Rydym yn gwybod eu bod yn frwd dros gynaliadwyedd. Mae arolygon UCM ers blynyddoedd lawer wedi adrodd y canlynol:

> Dywed **89%** eu bod yn cytuno y dylai eu man astudio **"ymgorffori a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn weithredol"**
>
> Hoffai **82%** weld **"datblygiad cynaliadwy yn cael ei ymgorffori a'i hyrwyddo'n weithredol trwy bob cwrs"**
>
> Dywed **67%** bod **"datblygiad cynaliadwy yn rhywbeth yr hoffwn ddysgu mwy amdano"**


Mae gan **Brifysgol Bangor** ac **Undeb Bangor** (Undeb y Myfyrwyr) gynaliadwyedd fel galluogwr strategol, a gall ein myfyrwyr gymryd camau cynaliadwy uniongyrchol yn unol â Datganiad Cynaliadwyedd Undeb Bangor yn ogystal â thrwy gynllun strategol y brifysgol: Strategaeth 2030 – Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol (gweler y trosolwg isod).

## Ein Staff

---

Mae cynaliadwyedd wedi ei wreiddio ym mhob rhan o'n cynllun strategol sy'n pwysleisio ei bwysigrwydd fel egwyddor ganolog yng ngweledigaeth, gwerthoedd a galluogwyr strategol y brifysgol. Trwy weithredu yn unol â'n cynllun strategol, mae staff yn cael eu grymuso a'u galluogi i wreiddio newid ymddygiad cynaliadwy ledled y brifysgol, ymhlith y staff a'r myfyrwyr.

Cipolwg ar Strategaeth 2030 – Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol



## Cynnwys myfyrwyr a staff yn y gwaith o lywodraethu, rheoli, datblygu a chyflwyno cynaliadwyedd

Cynrychiolir myfyrwyr ar y mwyafrif o bwyllgorau'r brifysgol sy'n ymdrin â pholisïau a phenderfyniadau strategol y brifysgol. Mae aelodaeth y Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd yn galluogi myfyrwyr a staff i oruchwylio datblygiad a monitro parhaus ein hamrywiol bolisïau, strategaethau, rheolaeth a chynlluniau gweithredu cynaliadwyedd. Anogir myfyrwyr a staff yn gryf i ddatblygu polisïau, strategaethau, cynlluniau gweithredu, projectau, cynigion ariannu a dadansoddiad cost ar y cyd â'r brifysgol a chyflwyno syniadau ar gyfer datblygu a monitro i'r Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd.

Bydd y brifysgol hefyd yn ymdrechu i greu ac ymgorffori rhwydwaith o bencampwyr cynaliadwyedd i hyrwyddo cynaliadwyedd ar draws y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol a bydd yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo cynaliadwyedd ymhellach i gymuned y myfyrwyr.

## Codi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad

### Cynefino

Er mwyn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a monitro'r polisïau, strategaethau a chynlluniau gweithredu sy'n cefnogi cynaliadwyedd ym Mangor, mae polisi a chynllun cynaliadwyedd y brifysgol, materion cynaliadwyedd a chyfleoedd ymgysylltu â myfyrwyr ar gyfer cynaliadwyedd oll yn rhan o'r prosesau cynefino i'r holl fyfyrwyr a staff newydd yn y cyfnod cynefino gorfodol i fyfyrwyr a staff. Yn ogystal, ceir gwybodaeth gyson trwy gylchlythyrau bwletin y staff a'r myfyrwyr.

### Digwyddiadau ac ymgyrchoedd ar draws y brifysgol a'r gymuned

Y llynedd, cynhaliodd y brifysgol ac Undeb Bangor nifer o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd cynaliadwyedd a gynlluniwyd i gyrraedd yr holl fyfyrwyr a staff, ac, mewn rhai achosion, estyn allan i gymuned dinas Bangor.

Rhai o'r ymgyrchoedd mewnol ac allanol, digwyddiadau a gweithgareddau rhannu gwybodaeth rydym yn cymryd rhan ynddynt:

- Wythnos Groeso Myfyrwyr
- Cynefino staff
- Rhaglen Ddigwyddiadau Bywyd ar y Campws
- Ymgyrch Costau Byw
- Y Prosiect Prydau Poeth
- 25 erbyn 25
- Digwyddiadau Masnach Deg
- Digwyddiadau Gardd Fotaneg Treborth a Grŵp Gweithredu Myfyrwyr Treborth

Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chymdeithasol - Cyfleoedd Gwirfoddoli

Gwobr NUS Effaith Werdd

Awr Ddaear WWF

## Targedau a chyllid y brifysgol ar gyfer projectau cynaliadwyedd ymarferol a arweinir gan fyfyrwyr neu staff

---

Anogir unrhyw aelod o'r brifysgol sydd â syniad am ddatblygiad cynaliadwy ac sy'n meddwl bod angen cyllid neu gymorth arall arnynt i wireddu eu syniadau gysylltu ag unrhyw un o'n staff cynaliadwyedd neu anfon e-bost atom yn sustainability@bangor.ac.uk. Yna eir â'r syniadau i'r Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd, sy'n rheoli'r cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael.

Mae'r targedau cynaliadwyedd wedi eu cynnwys yn y rhestr o ddangosyddion perfformiad allweddol yn y Strategaeth Gynaliadwyedd ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau arfer gorau a gwelliant parhaus

Mae cyllid a chymorth arall ar gael i brojectau a gymeradwyir trwy gynlluniau, e.e. yn ein menter Buddsoddi i Arbed, mae'r brifysgol yn sicrhau bod 5% o'i chostau ynni ar gael i ariannu projectau cynaliadwyedd.

Bydd yr holl newyddion a digwyddiadau ymgysylltu â staff a myfyrwyr yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, yn y Bwletin Staff a'r Bwletin Myfyrwyr, a bydd projectau a ariennir hefyd yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd yn flynyddol nes iddynt gael eu cwblhau.

Mae enghreifftiau o geisiadau llwyddiannus am gyllid a chymorth ar ffurf amser staff, cronfeydd ac adnoddau eraill y brifysgol yn cynnwys**:**

Cynllun Beicio i'r Gwaith

Cynlluniau Ymwybyddiaeth Gwastraff ac Ailgylchu

Treialu Campws Digidol/Clyfar

Ymchwilio i newid posibl i beiriant chwilio Prifysgol carbon negative

Storfa Beiciau wedi'i diogelu'n llawn

Prynnu mygiau teithio wedi'u brandio a photeli dwr i leihau gwastraff arlwyo'r Brifysgol

Wythnos am Wastraff, Ffasiwn Gyflym, Tlodi Cyfnod

Archrediad ISO14001:2015

## Darganfod mwy, gwneud mwy

---

Cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd neu Dîm yr Amgylchedd am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynaliadwyedd, anfonwch e-bost i sustainabilty@bangor.ac.uk neu un o'r tîm:

https://www.bangor.ac.uk/sustainability/team.php.cy

https://www.bangor.ac.uk/environment/environmentteam.php.cy

Dogfen wedi'i diweddaru: Mai 2024